Cefnogi Rhieni: Modelau ac ymagweddiadau mewn darparu gwasanaethau

Sefydliad ……

Cyfeiriad ……..

……..

Ffôn …… E-bost ……..

Fe hoffwn archebu …… lle ar gyfer y diwrnod gwybodaeth ar 10 Chwefror 2010.

Enw'r Cynrychiolydd	**Gofynion Dietegol** e.e. llysieuol, di-glwten	**Gofynion o ran Mynediad** e.e. mynediad ar gyfer cadair olwyn	**Gofynion Cyfathrebu?** e.e. dolen sain, cyfieithydd, ac yn y blaen

☐ A fyddech cystal â thicio os nad ydych yn dymuno derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau gan Plant yng Nghymru yn y dyfodol

Ffioedd
Aelodau: £50 Y Sawl Nad Ydynt yn Aelodau : £70 (Mae'n cynnwys cinio)

Rhif Aelodaeth Plant yng Nghymru ……

☐ 'Rwyf yn amgáu siec am £ ……. a wnaed yn daladwy i Plant yng Nghymru

☐ 'Rwyf yn dymuno ichi anfon anfoneb imi am …….. o Leoedd. Rhif Archeb Pryniant ……

Diddymiadau
Fe fydd diddymiadau a dderbyniwyd dair wythnos cyn dyddiad y digwyddiad yn cael eu had-dalu'n llawn, namyn tâl gweinyddol o £10. Ni ellir ad-dalu ar ôl y dyddiad hwn, er y gellir amnewid cynrychiolydd am gynrychiolydd. Y mae Plant yng Nghymru'n neilltuo'r hawl i newid rhaglenni'r digwyddiad ar unrhyw adeg.

Children in Wales
Plant yng Nghymru

ESF
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Children in Wales is a joint sponsor in the Reach the Heights project

Mae Plant yng Nghymru yn gyd-noddwr yn y prosiect Cyrraedd y Nod

Cefnogi Rhieni:

Modelau ac ymagweddiadau mewn darparu gwasanaethau

Diwrnod Gwybodaeth Fforwm Magu Plant

10 Chwefror 2010, 9.30yb - 4yp

Cefnogi Rhieni: Modelau ac ymagweddiadau mewn darparu gwasanaethau

Fe fydd y diwrnod gwybodaeth hwn yn archwilio amrywiol fodelau a strategaethau ar gyfer ymgysylltu gyda a chefnogi rhieni. Fe fydd y diwrnod yn archwilio ymarfer da ac ymchwil ac fe fydd yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr ystyried eu hymarfer eu hunain a rhannu'u profiadau. Fe gaiff hyn ei gyflawni drwy gyflwyniadau ffurfiol a 2 weithdy estynedig.

Yn ystod y dydd, fe gaiff cynrychiolwyr y cyfle i:

- Dysgu am wasanaethau a ddarperir yn Abertawe ar gyfer rhieni yng nghymuned y Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, i rieni yn eu harddegau a gwaith sy'n cael ei wneud i gymorth tadau;
- Dysgu am wasanaethau ymyrraeth ar gyfer y sawl sy'n cyflawni camdriniaeth deuluol a chefnogaeth i'w dioddefwyr yn Abertawe;
- Edrych ar ffyrdd o gymorth rhieni diymgeledd, yn seiliedig ar ymchwil cadarn ac ymarfer gorau;
- Ennill dealltwriaeth o'r Model Partneriaeth Teulu – fframwaith ar gyfer cynorthwyo teuluoedd, a ategir gan hyfforddiant wedi'i seilio ar dystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i atal problemau seicogymdeithasol;
- Darpariaeth i rieni i gymorth lles emosiynol eu plant mewn sefyllfa ysgol;
- Cyfarfod, cyfnewid syniadau a rhwydweithio gydag ymarferwyr eraill.

Pwy ddylai fynychu?

Mae'r gynhadledd hon wedi'i hanelu at bawb sy'n darparu cymorth rhianta neu gymorth teuluol mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

I neilltuo lle, a fyddech cystal â chwblhau'r ffurflen neilltuo lle trosodd:
Ffacsio i: 029 2034 3134
Post i: Plant yng Nghymru, 25 Plas Winsor, Caerdydd CF10 3BZ
Ebost i: bookings@childreninwales.org.uk

Fe ellir hefyd lawrlwytho ffurflenni neilltuo lle oddi ar **www.plantyngnghymru.org.uk**

Siaradwyr:

Fe fydd **Hilton Davis, Seicolegydd Clinigol ac Athro Emeritws mewn Seicoleg Iechyd Plant yng Ngholeg y Brenin / King's College Llundain (Y Sefydliad Seiciatreg)** yn cyflwyno gweithdy yn y pnawn fydd yn disgrifio'r Model Partneriaeth Teulu, fel fframwaith cysyniadol echblyg, ac mae modd ei ddefnyddio ar gyfer gwneud synnwyr o'r prosesau cynorthwyo. Mae'r Model wedi'i fwriadu fel canllaw syml ar gyfer ymarferwyr unigol, a'r cynllunio gwasanaethau ac ymchwil ar yr hyn y gellir adeiladu datblygiad gwasanaethau.
Fe fydd goblygiadau'r Model ar gyfer dethol, hyfforddi a rhoi cefnogaeth reoli i staff yn cael eu trafod, er mwyn archwilio'r syniad bod gan effeithiolrwydd gwasanaeth lawn cymaint i wneud â rhinweddau a sgiliau personol ymarferwyr a'r perthnasoedd maent yn eu creu gyda theuluoedd, ag y mae gyda thechnegau ymyrraeth penodol. Fe fydd tystiolaeth ar gyfer y Model hefyd yn cael ei chyflwyno. Mae hyn yn dynodi'i fod yn diwallu gofynion rhieni, bod ganddo ddilysrwydd rhesymol o ran prosesau ac effeithiolrwydd, a'i fod yn cydategu'r rhan fwyaf o ymagweddiadau eraill yn seiliedig ar gynnwys os ydynt i fod yn effeithiol.

Yr Athro Davis oedd Pennaeth y Ganolfan Cymorth Rhieni a Phlant yn Ysbyty Guy's (gweler www.cpcs.org.uk) tan ei ymddeoliad yn 2007. Fe wnaeth esgeulustod gwasanaethau ar ran prosesau cyfathrebu ei arwain ef i ddatblygu'r Model Partneriaeth Teulu, sy'n darparu fframwaith cysyniadol echblyg a hygyrch ar gyfer cynorthwyo teuluoedd, a ategir gan hyfforddiant yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae ef wedi bod yn pryderu yn neilltuol ynglŷn ag atal problemau seicogymdeithasol, ac mae wedi gweithio i ledaenu ymarfer effeithiol yn y maes hwn. Mae'r Model wedi'i weithredu mewn ardaloedd drwy'r Deyrnas Unedig i gyd, mewn amrywiaeth o wledydd Ewropeaidd a thrwy Awstralia a Seland Newydd i gyd.

Fe fydd **Honor Rhodes, Cyfarwyddwr Datblygu ac Arloesi, Sefydliad y Teulu a Rhianta**, yn rhoi gweithdy ar "Gweithio gyda theuluoedd sydd yn ein trwblu ni". Mae llawer ohonom wedi cyfarfod â theuluoedd sy'n peri gofid neilltuol. Mae'r gweithdy hwn wedi'i gynllunio i gynorthwyo cynrychiolwyr i feddwl a gweithio gyda theuluoedd yn dra effeithiol, ym mha bynnag sefyllfa, yn seiliedig ar ymchwil cadarn ac ymarfer gorau. Fe ddechreuodd Honor ei gyrfa yn addysgu mewn carchardai. Mae hi'n Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig ac mae ganddi Radd yn y Gyfraith. Mae hi wedi gweithio yn datblygu gwasanaethau teuluol yn Tower Hamlets ac yng Nghorfforaeth Llundain. Fe symudodd hi wedyn i'r sector gwirfoddol i weithio i Gymdeithas Lles y Teulu. Ym mis Ebrill 2005, fe symudodd hi i *Coram Family* i ddechrau yn ei swydd fel Prif Weithredwr. Mae Honor wedi bod yn Sefydliad y Teulu a Rhianta ers 2006, yn gyfrifol am sefydlu gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau perthynol eraill. Mae swyddi eraill Honor yn cynnwys cyfarwyddiaeth anweithredol o Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Addysgu y Ddinas a Hackney gyda chyfrifoldeb arbennig dros iechyd a lles plant, ac yn ddiweddar, yn Ymddiriedolwr Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyswllt Plant.

Fe fydd **Lynda Hill, Rheolwr Rhianta Cychwyn Cadarn, Abertawe** yn siarad am wasanaethau a ddarperir yn Abertawe ar gyfer rhieni, yn cynnwys cefnogaeth a ddarperir i gymuned y Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig ac ar gyfer rhieni yn eu harddegau. Mae Abertawe yn cyflogi 3 o weithwyr sy'n canolbwyntio'n benodol ar weithio gyda thadau, ac fe wna Lynda ddarparu gwybodaeth am hyn. Fe fydd hi hefyd yn siarad am wasanaethau ymyrraeth a ddarperir yn Abertawe ar gyfer y sawl sy'n cyflawni camdriniaeth deuluol a chefnogaeth i'w dioddefwyr.

Fe fydd **Linda Nicklin, *The Place2Be*, Rheolwr Canolfan Caerdydd** yn siarad am waith *The Place2Be*, elusen sy'n gweithio y tu mewn i ysgolion i wella lles emosiynol plant, eu teuluoedd a'r holl gymuned ysgol. Maent ar hyn o bryd yn gweithio gyda 155 o ysgolion ledled y Deyrnas Unedig (yn cynnwys Caerdydd), yn aml mewn ardaloedd o amddifadedd mawr. Mae'u gwasanaethau ar gael i blant sy'n ymdopi â phroblemau, megis profedigaeth, teulu'n chwalu, trais teuluol, trawma a bwlio. Mae *The Place2Be* yn gweithio law yn llaw gyda rhieni a gofalwyr i wneud pethau yn well a chynorthwyo plant i ymdopi.